AMODAU

Lefelau Cymwysterau a Chydrannau

DOGFEN REOLEIDDIO

Lefelau Cymwysterau a Chydrannau

Cynnwys

1 Cyflwyniad 1
Y ddogfen hon 1
Y gofynion a'r canllawiau hyn 1
2 Gofynion o ran lefelau 1
Aseinio lefel i gymhwyster 2
Aseinio mwy nag un lefel i gymhwyster 2
Aseinio lefel i gydran o fewn cymhwyster 2
3 Disgrifyddion lefel 3
4 Canllawiau ar lefelau a disgrifyddion lefel 9
Pwy all ddefnyddio'r disgrifyddion lefel? 9
Sut y dylai cyrff dyfarnu ddefnyddio'r disgrifyddion lefel? 9
Sut y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r disgrifyddion? 10

1 Cyflwyniad

Y ddogfen hon

1.1 Mae'r ddogfen hon yn ategu Amodau Cydnabod Cyffredinol dros dro Cymwysterau Cymru, drwy nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas ag aseinio lefelau i gymwysterau rheoleiddiedig a (lle y bo'n briodol) eu cydrannau.

Y gofynion a'r canllawiau hyn

1.2 Mae Amod E9.3 yn ein galluogi i bennu gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu dilyn, a chanllawiau y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu hystyried, wrth aseinio –

(a) lefel i gymhwyster,

(b) mwy nag un lefel i gymhwyster,

(c) lefel i Gydran o fewn cymhwyster.

1.3 Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

(a) Adran 2 sy'n nodi ein gofynion o ran lefelau.

(b) Adran 3 sy'n nodi disgrifyddion lefel y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu defnyddio wrth ddewis y lefel briodol i'w haseinio i gymhwyster.

(c) Adran 4 sy'n nodi ein canllawiau ar lefelau a disgrifyddion lefel.

2 Gofynion o ran lefelau

2.1 Mae Amod E9.3 yn ein galluogi i bennu gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu dilyn wrth aseinio –

(a) lefel i gymhwyster,

(b) mwy nag un lefel i gymhwyster,

(c) lefel i Gydran o fewn cymhwyster.

2.2 Nodwn ein gofynion at ddibenion Amod E9.3 ym mharagraffau 2.3 i 2.5 isod.

Aseinio lefel i gymhwyster

2.3 Wrth aseinio lefel i bob un o'i gymwysterau yn unol ag Amod E9.1, rhaid i gorff dyfarnu ddefnyddio'r disgrifyddion lefel a nodir yn adran 3 isod er mwyn dewis y lefel fwyaf priodol i'w haseinio i'r cymhwyster hwnnw.

Aseinio mwy nag un lefel i gymhwyster

2.4 Wrth aseinio mwy nag un lefel i gymhwyster rhaid i gorff dyfarnu –

(a) bod yn fodlon bod yr amrediad cyflawniad a gydnabyddir gan y cymhwyster yn ddigonol i rychwantu mwy nag un lefel,

(b) defnyddio'r disgrifyddion lefel a nodir yn adran 3 isod er mwyn dewis y lefelau mwyaf priodol i'w haseinio i'r cymhwyster hwnnw,

(c) cael rhesymeg clir dros aseinio mwy nag un lefel i'r cymhwyster hwnnw

(d) cyhoeddi'r rhesymau hynny.

Aseinio lefel i gydran o fewn cymhwyster

2.5 Wrth aseinio lefel i Gydran o fewn cymhwyster yn unol ag Amod E9.2, rhaid i gorff dyfarnu –

(a) defnyddio'r disgrifyddion lefel a nodir yn adran 3 isod er mwyn dewis y lefel fwyaf priodol i'w haseinio i'r Gydran honno,

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y lefel a gaiff ei haseinio i bob Cydran yn briodol o ystyried y lefel a aseiniwyd i'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

3 Disgrifyddion lefel

3.1 Rhennir y disgrifyddion lefel yn ddau gategori –

(a) gwybodaeth a dealltwriaeth; ac

(b) sgiliau.

3.2 Mae disgrifydd gwybodaeth a disgrifydd sgiliau ar gyfer pob lefel o fewn y fframwaith. Mae'r disgrifyddion yn berthnasol i'r holl gymwysterau a reoleiddir gennym, y rhai cyffredinol a galwedigaethol, ac felly mae llawer o'r disgrifyddion yn cynnwys "a/neu" er mwyn dangos eu bod yn berthnasol i'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag astudio pwnc neu wrth baratoi ar gyfer swydd neu rôl.

3.3 Mae'r disgrifyddion lefel yn adeiladu ar y rhai a ddefnyddir yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF). Bwriedir i lefelau 4-8 fod yn gyson â'r pum lefel a geir yn y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (FHEQ).

3.4 Mae'r disgrifyddion yn nodi'r wybodaeth a'r sgiliau cyffredinol sy'n gysylltiedig â deiliaid nodweddiadol y cymhwyster ar y lefel honno. Cyflwynir y disgrifyddion lefel ar ffurf deilliannau ac mae pob categori yn dechrau â'r un datganiad ("gall y deiliad...") sydd wedyn yn cysylltu â'r deilliannau sy'n berthnasol i bob lefel o'r fframwaith.

3.5 Mae'r disgrifyddion ar gyfer y wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflawniad Mynediad 1 yn eithriad yn hyn o beth. Mae disgrifyddion Mynediad 1 yn seiliedig ar gontinwwm cyflawniad y gellir ei ddefnyddio i olrhain a chydnabod cynnydd tuag at gyflawni targedau sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.

3.6 Ni fwriedir i unrhyw rai o'r disgrifyddion gyfeirio at y broses ddysgu nac at ddulliau asesu penodol.

Lefel	Disgrifydd gwybodaeth (mae'r deiliad...)	Disgrifydd sgiliau (gall y deiliad...)
Mynediad 1	Yn symud ar hyd continwwm sy'n amrywio o'r cyflawniadau mwyaf elfennol i ddechrau defnyddio gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth sy'n ymwneud â'r pwnc neu'r amgylchedd uniongyrchol.	Symud ar hyd continwwm sy'n amrywio o'r cyflawniadau mwyaf elfennol i ddechrau defnyddio sgiliau sy'n ymwneud â'r pwnc neu'r amgylchedd uniongyrchol.
Mynediad 2	Yn meddu ar wybodaeth neu ddealltwriaeth sylfaenol o bwnc a/neu yn gallu cyflawni tasgau syml, cyfarwydd; ac Yn gwybod pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn cwblhau gweithgareddau syml.	Cyflawni tasgau a gweithgareddau syml, cyfarwydd. Dilyn cyfarwyddiadau neu ddefnyddio camau y mae wedi'u hymarfer er mwyn cwblhau tasgau a gweithgareddau.
Mynediad 3	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd; ac yn Gwybod ac yn deall y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cwblhau tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd.	Cyflawni tasgau a gweithgareddau strwythuredig mewn cyd-destunau cyfarwydd. Bod yn ymwybodol o oblygiadau ei gamau gweithredu iddo ef ei hun ac eraill.
L1	Yn meddu ar wybodaeth ffeithiol sylfaenol am bwnc a/neu wybodaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau er mwyn cwblhau tasgau arferol diffiniedig a mynd i'r afael â phroblemau syml; ac Yn ymwybodol o agweddau ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu'r maes gwaith.	Defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol sylfaenol i gwblhau gweithdrefnau a thasgau arferol diffiniedig. Dewis a defnyddio gwybodaeth berthnasol. Nodi p'un a yw camau gweithredu wedi bod yn effeithiol.

L2	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau mewn maes astudio neu faes gwaith er mwyn cwblhau tasgau diffiniedig a mynd i'r afael â phroblemau syml. Yn gallu dehongli gwybodaeth a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu'r maes gwaith.	Dewis a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol perthnasol i gwblhau tasgau diffiniedig ac arferol ar y cyfan a mynd i'r afael â phroblemau syml. Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol er mwyn llywio camau gweithredu. Nodi pa mor effeithiol y mae camau gweithredu wedi bod.
L3	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ffeithiol, gweithdrefnol a damcaniaethol o bwnc neu faes gwaith er mwyn cwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau diffiniedig a all, serch hynny, fod yn gymhleth ac yn anarferol. Yn gallu dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o natur y maes astudio neu'r maes gwaith. Yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.	Nodi, dewis a defnyddio sgiliau, dulliau a gweithdrefnau gwybyddol ac ymarferol priodol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau diffiniedig a all, serch hynny, fod yn gymhleth ac yn anarferol. Defnyddio gwaith ymchwilio priodol i lywio camau gweithredu. Adolygu pa mor effeithiol y mae dulliau a chamau gweithredu wedi bod.

L4	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, damcaniaethol neu dechnegol o bwnc neu faes gwaith er mwyn mynd i'r afael â phroblemau diffiniedig ond cymhleth ac anarferol. Yn gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o natur amrediad bras y maes astudio neu'r maes gwaith. Yn meddu ar ymwybyddiaeth wybodus o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.	Nodi, addasu a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol er mwyn llywio camau gweithredu a mynd i'r afael â phroblemau sydd fel arfer yn weddol ddiffiniedig ond sydd hefyd yn gymhleth ac yn anarferol. Adolygu effeithiolrwydd a phriodoldeb dulliau, camau gweithredu a chanlyniadau.
L5	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, damcaniaethol neu dechnolegol o bwnc neu faes gwaith er mwyn canfod ffyrdd ymlaen o fewn cyd-destunau cymhleth sydd wedi'u diffinio'n fras. Yn gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a syniadau perthnasol. Yn ymwybodol o natur ac amrediad y maes astudio neu'r maes gwaith. Yn deall gwahanol safbwyntiau, dulliau gweithredu neu ysgolion meddwl a'r rhesymeg sy'n sail iddynt.	Pennu, addasu a defnyddio dulliau priodol a sgiliau gwybyddol ac ymarferol i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth sydd wedi'u diffinio'n fras. Defnyddio gwaith ymchwil neu ddatblygu perthnasol i lywio camau gweithredu. Gwerthuso camau gweithredu, dulliau a chanlyniadau.

L6	Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, cysyniadol neu dechnolegol blaengar o bwnc neu faes gwaith er mwyn creu ffyrdd ymlaen mewn cyd-destunau sy'n cynnwys llawer o ffactorau rhyngweithiol. Yn deall gwahanol safbwyntiau, dulliau gweithredu neu ysgolion meddwl a'r damcaniaethau sy'n sail iddynt. Yn gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a syniadau yn feirniadol.	Pennu, mireinio, addasu a defnyddio dulliau priodol a sgiliau gwybyddol ac ymarferol blaengar i fynd i'r afael â phroblemau sydd heb eu diffinio'n fanwl ac sy'n cynnwys llawer o ffactorau rhyngweithiol. Defnyddio a, lle y bo'n briodol, ddylunio gwaith ymchwil a datblygu perthnasol i lywio camau gweithredu. Gwerthuso camau gweithredu, dulliau a chanlyniadau a'u goblygiadau.
L7	Yn ailffurfio a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, cysyniadol neu dechnolegol o bwnc neu faes gwaith er mwyn creu ffyrdd ymlaen mewn cyd-destunau sy'n cynnwys llawer o ffactorau rhyngweithiol. Yn dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a damcaniaethau cymhleth yn feirniadol er mwyn llunio syniadau gwahanol. Yn deall y cyd-destunau ehangach y mae'r maes astudio neu'r maes gwaith yn perthyn iddynt. Yn deall datblygiadau cyfredol yn y maes astudio neu'r maes gwaith. Yn deall gwahanol safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol a sut y maent yn effeithio ar y maes astudio neu'r maes gwaith.	Defnyddio sgiliau arbenigol i gysyniadoli a mynd i'r afael â sefyllfaoedd problematig sy'n cynnwys llawer o ffactorau rhyngweithiol. Pennu a defnyddio methodolegau a dulliau gweithredu priodol. Dylunio a chyflawni gweithgareddau ymchwil, datblygu neu strategol er mwyn llywio neu greu newid yn y maes gwaith neu'r maes astudio. Gwerthuso camau gweithredu, dulliau a chanlyniadau a'u goblygiadau byrdymor a hirdymor yn feirniadol.

L8	Yn datblygu dealltwriaeth ymarferol, cysyniadol neu dechnolegol wreiddiol er mwyn creu ffyrdd ymlaen mewn cyd-destunau sydd heb eu diffinio ac sy'n cynnwys llawer o ffactorau rhyngweithiol, cymhleth. Yn dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, cysyniadau a damcaniaethau cymhleth yn feirniadol er mwyn llunio gwybodaeth a damcaniaethau newydd. Yn deall ac ailgysyniadoli'r cyd-destunau ehangach y mae'r maes gwybodaeth neu'r maes gwaith yn perthyn iddynt. Yn ehangu maes gwybodaeth neu faes gwaith drwy gyfrannu gwybodaeth a syniadau gwreiddiol. Yn defnyddio dealltwriaeth feirniadol o wahanol safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol a sut y maent yn effeithio ar y maes gwybodaeth neu'r maes gwaith.	Defnyddio sgiliau a thechnegau blaengar ac arbenigol i gysyniadoli a mynd i'r afael â sefyllfaoedd problematig sy'n cynnwys llawer o ffactorau rhyngweithiol, cymhleth. Llunio a defnyddio methodolegau a dulliau gweithredu priodol. Dechrau, dylunio a chyflawni gweithgareddau ymchwil, datblygu neu strategol sy'n ymestyn y maes gwaith neu'r maes astudio neu'n creu newid sylweddol yn y maes hwnnw. Gwerthuso camau gweithredu, dulliau a chanlyniadau a'u goblygiadau byrdymor a hirdymor ar gyfer y maes gwaith neu'r maes gwybodaeth a'i gyd-destun ehangach yn feirniadol.

4 Canllawiau ar lefelau a disgrifyddion lefel

4.1 Mae Amod E9.3 yn ein galluogi i bennu canllawiau y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu hystyried wrth aseinio –

(a) lefel i gymhwyster

(b) mwy nag un lefel i gymhwyster

(c) lefel i Gydran o fewn cymhwyster

4.2 Nodwn ein canllawiau at ddibenion Amod E9.3 ym mharagraffau 4.3 i 4.8 isod.

Pwy all ddefnyddio'r disgrifyddion lefel?

4.3 Rhaid i gyrff dyfarnu ddefnyddio'r disgrifyddion lefel pan fyddant yn aseinio lefel i gymhwyster a Chydran o fewn cymhwyster. Gall disgrifyddion lefel gael eu defnyddio hefyd gan y canlynol -

- myfyrwyr a defnyddwyr eraill - er mwyn deall a dehongli lefel cymwysterau,
- unrhyw un sydd am ddeall mwy am y gwahaniaeth rhwng cymwysterau ar wahanol lefelau a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

Sut y dylai cyrff dyfarnu ddefnyddio'r disgrifyddion lefel?

4.4 Dylai cyrff dyfarnu edrych ar yr holl ddisgrifyddion lefel a dewis y disgrifydd (neu, os bydd gan y cymhwyster fwy nag un lefel, y disgrifyddion) sy'n cyfateb orau i'r deilliannau gwybodaeth a sgiliau arfaethedig ar gyfer eu cymhwyster. Ar ôl i'r corff dyfarnu ddylunio'r cymhwyster, gallai edrych ar ddisgrifydd y lefel uwchben ac islaw lefel arfaethedig y cymhwyster a chymharu disgrifyddion gwybodaeth a sgiliau pob lefel â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae disgwyl i ddeiliad y cymhwyster eu harddangos. Nid oes angen iddynt gyfateb yn union; gall fod yn naturiol i gymwysterau ganolbwyntio mwy ar wybodaeth neu sgiliau ac felly byddant yn cyfateb yn well i'r disgrifydd gwybodaeth neu'r disgrifydd sgiliau fel y bo'n briodol.

4.5 Gall cyrff dyfarnu hefyd edrych ar amrywiaeth o ddeunyddiau eraill er mwyn eu helpu i ddewis y lefel fwyaf priodol ar gyfer eu cymhwyster gan gynnwys cymwysterau eraill ar lefelau amrywiol, datganiadau meincnodi a chynnwys a datganiadau diwydiant y cytunwyd arnynt. Gall cyrff dyfarnu gyfeirio at ddisgrifyddion lefel Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru sy'n gysylltiedig ag ymreolaeth ac atebolrwydd. Rhaid defnyddio cyfeiriadau o'r fath yn ychwanegol at y disgrifyddion lefel a amlinellir yn Adran 3 ac nid yn eu lle.

4.6 Ni ddylai cyrff dyfarnu a defnyddwyr ddisgwyl i bob cymhwyster fodloni'r disgrifydd lefel perthnasol yn llawn. Ni fyddai'n anarferol i gymwysterau llai ymdrin â rhai o'r nodweddion a nodir yn y disgrifydd yn unig tra bod cymwysterau mwy, a ddilynir dros gyfnod hwy fel arfer, yn fwy tebygol o gynnwys mwy o'r nodweddion. Mae'r disgrifyddion yn nodi'r hyn y bydd deiliad nodweddiadol sy'n cyrraedd y lefel honno o'r cymhwyster yn ei wybod ac yn gallu ei wneud ar sail y system ffit orau a ddisgrifir uchod.

4.7 Ni ddylai cyrff dyfarnu a defnyddwyr ddisgwyl i holl gynnwys a gwaith asesu cymhwyster gyfateb i'r lefel y mae disgwyl i ddysgwr ei chyrraedd ar ddiwedd y cymhwyster. Bydd hyn yn arbennig o wir yn achos cymwysterau a ddarperir dros gyfnod hwy ac sydd wedi'u llunio i alluogi'r dysgwr i symud o un lefel i lefel arall o fewn y cymhwyster. Wrth aseinio lefel i gymhwyster, dylai'r sefydliad dyfarnu ystyried faint o'r cynnwys a'r gwaith asesu sy'n cyfateb i lefel y cymhwyster a gallu cynyddol y dysgwr wrth iddo nesáu at ddiwedd y cymhwyster.

Sut y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r disgrifyddion?

4.8 Byddwn yn defnyddio'r disgrifyddion i lywio ein proses adolygu, yn enwedig pan fyddwn yn archwilio sut mae cyrff dyfarnu yn cadarnhau ac yn dilysu lefel eu cymhwyster yn erbyn y disgrifyddion ar gyfer y lefel honno.